OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1867

## Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015

## RHAN 2

### Dŵr mwynol naturiol

**Potelu dŵr mwynol naturiol**

**10.**—(1) Ni chaiff neb botelu dŵr mwynol naturiol—

(a) oni bai bod gofynion Atodlen 4 yn cael eu bodloni;

(b) mewn cynhwysydd heblaw cynhwysydd sydd â chaeadau a luniwyd i osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddifwyno neu halogi; ac

(c) sydd, ar adeg ei botelu, yn cynnwys unrhyw un o'r sylweddau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 5 ar lefel sy'n fwy na'r terfyn uchaf a bennir o ran y sylwedd hwnnw yn yr Atodlen honno.

(2) Rhaid i'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer canfod y sylweddau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 5 gydymffurfio â'r nodweddion perfformiad ar gyfer dadansoddi a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 5.